OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2011 (Cy.221) (C.74)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011

Gwnaed - - - - 9 Awst 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 178(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**1**).

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Mesur" ("the Measure") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Awst 2011

2. Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar 31 Awst 2011—

(a) adrannau 1 i 3 (arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr);

(b) adran 141 (y Panel);

(c) adran 142 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(ch) adran 143 (swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(d) adran 144 (awdurdodau perthnasol, aelodau etc.);

(dd) adran 145 (adroddiadau blynyddol) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(e) adran 146 (yr adroddiad blynyddol cyntaf);

(f) adran 148 (ymgynghori ar adroddiadau drafft) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(**1**) 2011 mccc 4.

(ff) adran 149 (cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(g) adran 150 (gofynion gweinyddol mewn adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(ng) adran 151 (gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(h) adran 152 (rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(i) adran 154 (aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(j) is-adrannau (2), (3) a (4) o adran 155 (peidio â gwneud taliadau) i'r graddau y maent yn ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(l) adran 156 (cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(ll) adran 157 (canllawiau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(m) adran 158 (y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel);

(n) adran 161 (canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig);

(o) adrannau 162 i 171 (cyfuno);

(p) Atodlen 2 (y Panel).

Carl Sargeant
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Un o Weinidogion Cymru

9 Awst 2011